

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Mill Lane, Llanelli

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf.....	18
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	19
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	20
Atodiad C - Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Mill Lane, Llanelli, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 27 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 39 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod MyDentist, Mill Lane, Llanelli yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd garedig, gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Defnyddio'r wybodaeth o adborth gan gleifion i grynhoi themâu a rhoi ffordd o rannu'r wybodaeth honno â'r cleifion ar waith
- Nodi manylion am unrhyw gyngor ar roi'r gorau i ysmegu yng nghofnodion y cleifion pan gaiff ei roi
- Nodi dewis iaith cleifion yn eu cofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad hwn yn seiliedig ar adborth a sylwadau
- Roedd amgylchedd y practis yn llachar, yn lân ac mewn cyflwr da
- Mae Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar gael i'r cleifion
- Trefniadau cynhwysfawr ar gyfer cynllunio triniaeth ar gyfer pob claf.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis mewn cyflwr da, yn drefnus ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau diogel ac effeithiol yr oedd wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yr oedd y cleifion yn ei gweld yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl i'r staff a'r cleifion yn y ddeintyddfa.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da ac yn hygyrch. Roedd y deintyddfeydd, yr ystafell ddihalogi ac ardal y dderbynfa o safon dda.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl wybodaeth ddiogelu sydd ar gael i'r staff ei gweld yn cyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyfredol sy'n benodol i Gymru
- Rhoi system ar waith i ailwrio statws DBS y staff yn rheolaidd fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y chyfarpar yn y practis mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr
- Roedd amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac amgylcheddol priodol a pherthnasol ar waith ac yn gyfredol
- Roedd gan y practis weithdrefnau a chyfarpar diogel a phriodol ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom grŵp o staff a oedd yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol. Gwelsom fod yr hyfforddiant yn gyfredol a bod tystysgrifau yn cael eu cadw i ddangos hyn.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm rheolaidd, ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu defnyddio i ddiweddarau'r practis, rhannu gwybodaeth ac adrodd ar ganlyniadau archwiliadau. Roedd arfarniadau yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn ac roedd y staff yn cael eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol pellach i ddatblygu eu gyrfa.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y ddogfennaeth llywodraethu wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar
- Roedd aelodau'r tîm yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ei gilydd er mwyn sicrhau bod eu cleifion yn cael gofal o safon uchel
- Roedd y polisiau yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael i bob aelod o'r staff
- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn dda ac roedd amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi ychwanegol ar gael yn ogystal â hyfforddiant gorfodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Gwelsom fod MyDentist, Mill Lane, Llanelli yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu'n dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd garedig, gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 39 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na blwyddyn.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

" Mae pawb yn barod iawn i helpu"

"Mae'r staff yn neis."

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Apwyntiadau cyflymach i gael triniaeth."

"Cynnig lleoedd GIG yn gynt."

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwellu Iechyd

Gwelsom bosteri ar gyfer cleifion ar sut i wella eu hiechyd deintyddol. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn Gymraeg a Saesneg.

Gwelsom arwydd 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Nodwyd yn y pump cofnod deintyddol a welsom fod cyngor ar hylendid y geg a chyngor ar ddeiet wedi cael eu rhoi i'r cleifion. Cadarnhawyd hyn gan yr holiadur i'r cleifion. Dywedodd 34 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Nodwyd gennym nad oedd y cyngor rhoi'r gorau i smygu a roddwyd wedi'i nodi ar gofnodion y cleifion a welsom.

Rydym yn argymhell y dylid nodi manylion y cyngor rhoi'r gorau i smygu a roddir yng nghofnodion y cleifion.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom aelodau o'r staff yn trin eu cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus wyneb yn wyneb a dros y ffôn. Roedd y staff yn gyfeillgar, roedd y drysau wedi cau pan oedd y ddeintyddfa yn cael ei defnyddio a chawsom sicrwydd bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal.

Gwelsom fod yr ystafell aros yn fawr a bod yr amseroedd aros yn fyr.

Nododd pob un o'r cleifion a atebodd yr holiadur fod staff y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Nododd bron pob claf fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt. Dywedodd pob un o'r cleifion fod pethau bob amser yn cael eu hegluro iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall.

Gwelwyd bod y naw egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol. Gwelsom fod gwybodaeth ac arwyddion priodol yn nodi oriau agor a rhifau cyswllt mewn argyfwng i'w gweld wrth fynedfa'r practis.

Dywedwyd wrthym fod aelodau o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg. Yn ystod yr arolygiad gwelsom fod poster i'w gweld yn yr ystafell aros yn cadarnhau bod aelodau o staff yn y practis yn hapus i siarad Cymraeg.

Cadarnhaodd yr adborth a gafwyd yn yr holiadur i gleifion fod pump o'r ymatebwyr wedi nodi mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Dywedodd tri chlaf eu bod wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf.

Nid oedd dewis iaith cleifion wedi cael ei nodi fel mater o drefn ar gofnodion y cleifion a welsom.

Rydym yn argymhell y dylid nodi dewis iaith cleifion yng nghofnod y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Gwnaethom edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

Roedd y wybodaeth am gostau triniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG i'w gweld yn yr ystafell aros, ynghyd â fersiynau Cymraeg a Saesneg o dystysgrifau cofrestru AGIC.

Gofal amserol

Mynediad amserol

O'r hyn a welsom, roedd yr amseroedd aros am apwyntiadau i gleifion yn y practis yn fyr a chawsom wybod fod apwyntiadau fel arfer yn rhedeg ar amser. Dywedwyd wrthym y byddai'r derbynnydd yn sôn wrth y cleifion am amseroedd aros ac unrhyw resymau dros oedi. Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu'n bersonol ac roedd apwyntiadau brys ar gael.

Dywedodd ychydig llai na dwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd yr arolwg ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Nododd bron pob claf a atebodd yr arolwg ei fod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol 'y tu allan i oriau' pe bai ganddo broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod gwybodaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion mewn amrywiaeth o leoedd, gan gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf a gwelsom fod tystiolaeth gynhwysfawr o'r broses cynllunio triniaeth a'r opsiynau a nodwyd ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd wedi holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Roedd yr holl gofnodion cleifion a welsom yn cynnwys nodiadau am hanes meddygol diweddar y cleifion.

Hawliau pobl

Gwelsom bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y practis a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Roedd yn cyfeirio at y nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y polisi yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaeth i bob claf ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchoddedig. Rhoddodd y staff enghreifftiau o sut maent yn trin pob claf ag urddas a pharch. Roedd y staff deintyddol yn defnyddio blwch gwybodaeth ychwanegol ar system nodiadau'r claf er mwyn sicrhau bod cleifion sydd ag unrhyw anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi.

Nododd pob claf a gwblhaodd yr holiadur nad oedd wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar-lein a dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant hwn yn orfodol i bob aelod o'r staff.

Roedd y practis yn gwbl hygyrch ac roedd mynediad gwastad ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd toiled ar gael i bobl anabl. Roedd dolen sain ar gael i'r cleifion a'r staff.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom ffyrdd y gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau. Roedd hyn yn cynnwys ar lafar, drwy wefan y practis, negeseuon testun a thrwy flwch awgrymiadau. Gwelsom gofnodlyfr cwynion a chanmoliaeth effeithiol. Roedd poster Gweithio i Wella i'w weld ar yr hysbysfwrdd a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau a chymorth perthnasol.

Roedd y practis yn cofnodi cwynion, sylwadau ac adborth ar ei system electronig "Wisdom." Roedd unrhyw ohebiaeth â'r claf yn cael ei holrhain drwy Wisdom. Gwelsom dystiolaeth fod adborth gan y cleifion yn cael ei rannu drwy gyfarfodydd tîm. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y cleifion yn cael gwybod am newidiadau neu welliannau o ganlyniad i sylwadau neu gwynion.

Rydym yn argymhell y dylai'r cleifion gael gwybod am adborth gan gleifion a gwelliannau neu newidiadau yn deillio o hynny. Bydd hyn yn helpu'r practis i nodi meysydd sy'n gweithio'n dda a meysydd y gellid eu gwella.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl i'r staff a'r cleifion yn y ddeintyddfa.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus. Roedd y deintyddfeydd, yr ystafell ddihalogi ac ardal y dderbynfa o safon dda. Roedd gan bob deintyddfa y cyfarpar angenrheidiol i gynnal y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn ymwneud â diogelwch a diogeledd amgylchedd y practis. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr a gwblhawyd ym mis Ebrill 2022 a oedd yn nodi risgiau, camau gweithredu ac amserlenni. Gwelsom fod asesiadau risg tân rheolaidd wedi'u cwblhau. Roedd yr holl offer diffodd tân ym mhob rhan o'r practis wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar ac roedd contract ar waith ar gyfer gwasanaethu'r cyfarpar tân. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân yn cael eu harddangos yn glir ac roedd y larymau yn cael eu profi bob wythnos gan wardeiniaid tân. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob mis.

Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos ynghyd â'r dogfennau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus/cyflogwr diweddaraf. Roedd yr ystafell staff yn cael ei defnyddio fel ardal newid ac roedd toiled ar gael i'r staff ac i'r cyhoedd.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y practis bolisi a chynllun parhad busnes cyfredol a chynhwysfawr ar waith.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau priodol i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol. Yn ogystal, roedd amserlen lanhau ar waith a oedd yn cefnogi arferion glanhau effeithiol. Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio.

Roedd gan y practis ardal benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd digon o le yn y cyfleuster, roedd yn lân, yn drefnus ac yn daclus. Roedd yn cynnwys cyfarpar addas.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Nodwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer ymdrin â sylweddau a oedd yn destun Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau wedi'u hachosi gan gyfarpar miniog.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol yn ddiweddar.

Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig a gwelsom fod nifer o becynnau cymorth cyntaf ar gael mewn lleoliadau ledled y practis.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau priodol y byddent yn eu dilyn pe bai argyfwng.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ac roeddent yn cael eu storio ar system TG ganolog y gallai pob aelod o'r staff ei defnyddio. Gwelsom siart llif ar hysbysfwrdd y staff a oedd yn cael ei ddiweddarau ar ddiwrnod yr arolygiad i gynnwys gwybodaeth ddiogelu benodol i Gymru a manylion cyswllt lleol ar gyfer atgyfeiriadau a chynghor. Roedd yn nodi'r camau gweithredu gofynnol pe byddai mater diogelu yn codi. Y prif ddeintydd oedd yr arweinydd diogelu ac roedd yn gallu trafod y polisiau a'r gweithdrefnau â ni. Roedd staff yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'r gweithdrefnau perthnasol a nodwyd ganddynt y byddai unrhyw bryderon yn cael eu cyflwyno i'r arweinydd diogelu. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu lefel dau.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau cyn cyflogi a geirdaon ar gyfer aelodau newydd o staff a'r holl wiriadau gwasanaeth datgelu a gwahardd staff ar waith. Nid oedd unrhyw system ar waith ar gyfer ailwrio statws DBS y staff. Cadarnhawyd gennym fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd y wybodaeth hon i'w gweld ar hysbysfwrdd y cleifion.

Rydym yn argymhell y dylid rhannu gwybodaeth ddiogelu sy'n benodol i Gymru â phob aelod o'r staff.

Rydym yn argymhell y dylid rhoi system ar waith i ailwrio statws DBS y staff o bryd i'w gilydd.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y cyfarpar priodol yn y ddeintyddfa er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r cyfarpar. Ystyriwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Roedd digon o offer deintyddol ac roeddent mewn cyflwr da.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau o belydrau-X yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Roedd trefniadau diogel ar waith mewn perthynas â'r amgylchedd, gwaith cynnal a chadw a phrofi cyfarpar pelydr-X a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom nad oedd y ddeintyddfa / peiriant a ddefnyddiwyd i gynnal archwiliad pelydr-X y claf, dos y pelydr-X nac amser yr archwiliad pelydr-X yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yn nodiadau'r claf (er bod system ar waith i olrhain dosau).

Rydym yn argymhell y dylid cynnwys gwybodaeth am ddos, peiriant / deintyddfa ac amser pelydr-X y claf yng nghofnodion y claf ynghyd â chadarnhad bod y claf wedi cael esboniad o'r risgiau a'r manteision.

Rydym yn argymhell y dylid arddangos gwybodaeth yn nodi manylion unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau pelydr-X i gleifion beichiog gan ofyn iddynt roi gwybod i'r deintydd os gallent fod yn feichiog.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn natganiad o

ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion y practis, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom weithdrefn y practis ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau dyddiedig Ebrill 2022 a soniwyd wrthym am y broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Dywedodd y staff wrthym fod y Cyfarwyddwr Clinigol yn hygyrch ac yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol pan oedd angen.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis brosesau effeithiol ar waith i wella ansawdd y gwasanaethau.

Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ac roedd tystiolaeth ei fod yn ymdrin â'r materion a gododd.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau eraill hefyd fel yr archwiliad o radiograffau, archwiliad o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu. Gwelsom dystiolaeth fod crynodebau archwilio yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm er mwyn gwneud gwelliannau a / neu rannu arferion gorau.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data a pholisi preifatrwydd ar waith yn y practis. Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel yn unol â'r Gofynion Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pump claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd pob achos a adolygwyd gennym wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Roedd gan y practis bolisi cydsyniad ac roedd yn cydymffurfio â'r polisi hwnnw. Gwelsom fod cydsyniad yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd yn bennaf cyfrifol am reoli ac arwain y practis. Roedd yn cael ei gefnogi gan dîm corfforaethol a oedd yn darparu cymorth a chynghor clinigol a llywodraethu a thîm practis a oedd yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol â'r amodau cofrestru.

Gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac roedd y gydberthynas rhyngddynt a'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'i gilydd a'r cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn dystiolaeth o hyn. Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben, y daflen wybodaeth i gleifion a'r adroddiad blynyddol a oedd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol. Roedd y polisiau ar gael i bob aelod o'r staff ar y system TG gorfforaethol.

Y rheolwr cydymffurfio yn MyDentist oedd yn bennaf cyfrifol am sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol a'u cyflwyno pe bai unrhyw anafiadau neu ddigwyddiadau difrifol.

Roedd tystiolaeth yn cael ei chadw o gyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom enghreifftiau o gofnodion o'r cyfarfodydd hyn. Roedd y cofnodion yn dangos bod y materion a'r camau gweithredu a oedd yn cael eu codi yn briodol ac yn rhagweithiol. Roedd cofnodion cyfarfodydd ar gael i bob aelod o'r staff.

Y Gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac roedd polisiau ar waith i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff. Nid oedd y practis yn defnyddio staff asiantaeth yn rheolaidd.

Cedwir ffeiliau staff a oedd yn cynnwys tystiolaeth o'u cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, eu contract cyflogaeth, eu statws imiwnedd o ran Hepatitis B, eu gwiriad gan y DBS a'u hyswariant indemniad proffesiynol.

Gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o'r staff a'u bod wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd

yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Gwelsom fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol yn dda ac roedd system effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Mill Lane, Llanelli

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Mill Lane, Llanelli

Dyddiad yr arolygiad: 27 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Defnyddio'r wybodaeth a geir yn sgil adborth gan gleifion i grynhoi themâu a rhoi system ar waith i rannu'r themâu hyn â'r cleifion	PDR 2017, rheoliad 16 (1)(a) a (2)(b)(ii) (d)(ii) Safon 6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Rydym wedi codi'r mater hwn â'r tîm marchnata.	Victoria Jones/ tîm marchnata	Mehefin 2023
Nodi dewis iaith cleifion yn eu cofnodion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (PDR 2017), rheoliad 13 (1) ac 13 (9) (a). Safon 4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoleiddio	Rydym wedi dechrau cynnwys dewis iaith yng nghofnodion y cleifion	Victoria Jones	Gweithredwyd ac yn parhau

<p>Nodi manylion y cyngor ar roi'r gorau i smygu yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (PDR 2017), rheoliad 13 (1) ac 13 (9) (a).</p> <p>Safon 4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoleiddio</p>	<p>Mae pob deintydd wedi cael gwybod sut i ychwanegu'r wybodaeth hon ar R4+ ac maent wedi dechrau ychwanegu mwy o wybodaeth fel rhan o'u nodiadau.</p>	<p>Victoria Jones</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
<p>Sicrhau bod yr holl wybodaeth ddiogelu sydd ar gael i'r staff ei gweld yn cyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyfredol sy'n benodol i Gymru</p>	<p>PDR 2017, rheoliad 14 (1) Diogelu cleifion</p>	<p>Newidiwyd y poster ar ddiwrnod yr arolygiad er mwyn dangos y wybodaeth gywir. Nawr yn ystafell y staff ar yr hysbysfwrdd.</p>	<p>Victoria Jones</p>	<p>Gweithredwyd</p>
<p>Rhoi system ar waith i ailwirio statws DBS y staff yn rheolaidd fel mater o drefn</p>	<p>PDR 2017, rheoliad 14 (1) Diogelu cleifion</p>	<p>Codwyd y mater â'n tîm cydymffurfio.</p>	<p>Victoria Jones</p>	<p>Mehefin 2023</p>
<p>Arddangos gwybodaeth i gleifion a allai fod yn feichiog yn gofyn iddynt gadarnhau hynny â'r Deintydd</p>	<p>PDR 2017, rheoliad 8 (1)</p>	<p>Mae poster ar yr hysbysfwrdd. Gallwn anfon llun neu gopi ohono atoch os byddai'n well gennych.</p>	<p>Victoria Jones</p>	<p>Roedd y poster ar yr hysbysfwrdd ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn y gornel dde uchaf.</p>

Cofnodi'r dos, yr amser a'r ddeintyddfa / peiriant a ddefnyddiwyd i gynnal archwiliadau pelydr-X deintyddol yn nodiadau'r claf	PDR 2017, rheoliad 8 (1)	Hysbyswyd pob deintydd am y drefn hon ac maent wedi dechrau rhoi'r manylion yn eu nodiadau	Victoria Jones	Gweithredwyd ac yn parhau
--	--------------------------	--	----------------	---------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth Victoria Jones

Enw (priflythrennau): Victoria Jones

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17/04/2023